

# Cyfarwyddiadau'r gêm

## Bydd angen:

- bwrdd y gêm
- darn o arian
- cownteri
- potiau iogwrt
- bag o bys wedi sychu.

## Sut i chwarae:

- Gallwch chwarae mewn parau neu mewn timau bach.
- Mae angen potyn iogwrt ac 20 o bys wedi sychu ar bob tîm. Griff (wyau broga) yw'r pys sych.
- Rhowch y potyn iogwrt o'r neilltu. Hwn fydd mynwent y griff. Rhowch yr wyau yn y potyn wrth iddynt farw!
- Cymerwch eich tro i daflu'r darn o arian. Symudwch un lle os cewch ben, a dau os cewch gynffon.
- Yr enillydd yw'r tîm sydd â'r nifer fwyaf o wyau 'byw' pan gyrhaeddant y diwedd.

DS: Os ydych yn chwarae mewn grŵp mawr, efallai y byddai'n well defnyddio copi wedi'i chwyddo o fwrdd y gêm.